YMCHWILIAD CYHOEDDUS COVID-19 Y DEYRNAS UNEDIG

O FLAEN Y FARWNES HEATHER HALLETT
YN Y MATER: YMCHWILIAD CYHOEDDUS I ARCHWILIO'R PANDEMIG COVID-19 YN Y DU

DATGANIAD AR RAN GRŴP 'TEULUOEDD MEWN PROFEDIGAETH COVID-19 ER MWYN CYFIAWNDER CYMRU' AR GYFER YR AIL WRANDAWIAD RHAGARWEINIOL YN MODIWL 2(B)

Ar y 29 Mawrth 2023

---

1. Gwneir cyflwyniadau ar ran y grŵp 'Teuluoedd Mewn Profedigaeth Covid-19 Er Mwyn Cyfiawnder Cymru' ('CBFJ Cymru') o flaen yr ail wrandawiad rhagarweiniol Modiwl 2B ('M2b') ar 29 Mawrth 2023. Grŵp gyda ffocws Cymreig yw CBFJ Cymru sy'n ymroddedig i ymgyrchu dros a rhoi llais i'r rhai sydd mewn profedigaeth gan Covid-19 yng Nghymru. Mae CBFJ Cymru yn ddiolchgar i'r Cadeirydd am y cyfle i gyflwyno cyflwyniadau llafar yn y Gymraeg.

Amrediad

2. Ar 9 Mawrth 2023, fe gyhoeddodd yr Ymchwiliad Restr Dros Dro o Faterion ar gyfer Modiwl 1. Mae'r ddogfen yn gynhwysfawr a hynod o ddefnyddiol. Serch hynny, mae'n parhau i fod yn aneglur sut y gellir rhannu rhai materion yn ymwneud â Chymru rhwng y Modiwlau. Mae CBFJ Cymru yn ystyried y gellid wedi wneud cynydd pellach yn y gwrandawiad rhagarweiniol M2b hwn pe bai rhestr materion ar gyfer M2b wedi cael ei chyhoeddi cyn y gwrandawiad. Mae CBFJ Cymru yn galw am y gyhoeddiad o'r holl restrau materion cyn gynted â phosibl ac yn pwysleisio'r angen i gael mwy nag un gwrandawiad rhagarweiniol pellach ar gyfer M2b fel bod cyfle digonol i wneud cyflwyniadau ysgrifenedig a llafar ar faterion a chwmpas. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau nad oes unrhyw fylchau mewn craffiad yr Ymchwiliad o Gymru.

3. Fel sylwadau cyffredinol ar yr amrediad, mae CBFJ Cymru yn ailadrodd y cyflwyniadau a wnaed yng ngwrandawiad Modiwl 2 ('M2'), sef, bod rhaid i'r Ymchwiliad ceisio deall strwythur unigryw gofal iechyd yng Nghymru ym mhob Modiwl. Rhaid hefyd archwilio:

a. Y rhyngweithio a'r cyfathrebu rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru cyn ac ar ôl Ionawr 2020 (gan gynnwys amlder ac ansawdd cyfarfodydd).[1] Dylai hyn gynnwys ceisiadau ac ymdrechion gan Lywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU am gyllid ychwanegol;
b. I ba raddau yr oedd gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn arbennig, am wybodaeth wyddonol, feddygol a gwybodaeth arbenigol arall;
c. I ba raddau roedd y camau a gymerwyd, neu na chymerwyd, gan Lywodraeth Cymru yn wahanol i'r rhai a gymerwyd gan Lywodraeth y DU;
d. Y berthynas a'r cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a'r DU.

Ceisiadau Rheol 9

4. Mae CBFJ Cymru yn croesawu cadarnhad yr Ymchwiliad yng ngwrandawiad M2 bod Cyfarwyddwr Cyffredinol Cydgysylltu Argyfwng Covid-19 Llywodraeth Cymru, Mr Reg Kilpatrick, i dderbyn cais Rheol 9.[2] Os na chafwyd hyn ei wneud eisoes, rydym yn hyderus y gwneir hyn heb oediad gan ystyried y rhan ganolog a phwysig a chwaraeir gan y tyst hwn yng Nghymru.

5. Fe danfonwyd ceisiadau Rheol 9 at sefydliadau a chyrff sy'n berthnasol i grwpiau sy'n agored i niwed neu mewn perygl. Roedd diweddariad yr Ymchwiliad ar gyfer 2 Rhagfyr 2022 yn nodi yn Atodiad A, mewn perthynas â phobl hŷn, fod y canlynol wedi derbyn ceisiadau Rheol 9 (mewn perthynas â Modiwlau 2, 2A, 2B a 2C):
    a. Age UK;
    b. Care England;
    c. National Care Forum; and
    d. Homecare Association.

6. Mae diweddariad yr Ymchwiliad, sydd wedi'i dyddio 13 Chwefror 2023, yn rhestru y grwpiau mewn perygl/bregus sydd wedi cael holiaduron effaith ei anfon atynt ar gyfer M2b ers diweddariad Ionawr 2023, sef:
    a. Women's Equality Network Wales;

[1] Am enghreifftiau o fethiannau cyfathrebu gan Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru ynghylch profion cynnar yng Nghymru gweler Astudiaeth Achos 1, "Lessons Learned from National Public Health Institutes' Response to the Covid-19 Outbreak in 2020", International Association of Public Health Institutes, May 2022

[2] 28:25 – 29:1 – 4 (trawsgrifiad Modiwl 2, 1 March 2023); gweler hefyd ffyrdd o weithio ar draws y 4 gwlad yn ystod y pandemig https://publications.parliament.uk/pa/ld5802/ldselect/ldconst/15/1506.htm

b. BAWSO;
c. Welsh Women's Aid;
d. Safer Wales;
e. Chwarae Teg;
f. Race Council Cymru;
g. TGP Cymru.

7. Mae CBFJ Cymru yn bryderus iawn na ddylai unrhyw fwlch fodoli yn y dystiolaeth a gasglwyd gan yr Ymchwiliad mewn perthynas â phobl hŷn ac yn nodi nad yw'r rhestr uchod yn cynnwys grŵp sy'n cynrychioli pobl hŷn. Nid yw'n glir a gysylltwyd â phenodau Cymraeg/grwpiau cyfatebol ag Age UK, Care England, National Care Forum, a The Homecare Association. Mae'n ymddangos nad oes unrhyw grŵp Cyfranogwr Craidd yn cael ei gydnabod yn M2b gyda ffocws penodol /unig ar weithio gyda phobl hŷn yng Nghymru yn ystod pandemig Covid-19 (o safbwynt elusennol neu anwladwriaethol). Mae CBFJ Cymru yn deall ni geisiodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ('OPCW') am statws CP. Mae diweddariad Ionawr 2023 yr ILT yn nodi y gofynnwyd am ddatganiad corfforaethol gan OPCW. Mae CBFJ Cymru yn croesawu hyn ac yn rhagweld y bydd gan yr OPCW dystiolaeth hynod o berthnasol i'w rhoi i'r Ymchwiliad. Serch hyn, gan ystyried ei statws, ni ddylid dibynnu ar OPCW i ddarparu'r holl dystiolaeth mewn perthynas â phobl hŷn. Rhaid cael safbwyntiau gwahanol.

8. Mae pandemig Covid-19 wedi cael ac, ym marn CBFJ Cymru, yn parhau i gael effaith anghymesur ar bobl hŷn Cymru ac yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi a chymunedau difreintiedig.[3] Yr oedran tybiedig cyfartalog (yn seiliedig ar bwynt canolrif

[3] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-08/health-inequalities-in-covid-19-deaths-and-hospital-admissions-in-wales-march-2020-to-july-2022.pdf [**tudalen 2**]; **Gweler hefyd data Iechyd Cyhoeddus Cymru 12 March 2023** https://public.tableau.com/app/profile/public.health.wales.health.protection/viz/COVID-19-Hospitaladmissionsdashboard/COVID-19hospitaladmissionsdashboard?fbclid=IwAR0Es_VFH9XfOmntXMasJVEEWlJh0ELJ4WxGq7c_1ImPPxg_kLqlS7r8qaY ; **Anghydraddoldebau economaidd yng Nghymru** https://www.cardiff.ac.uk/news/view/2410317-economic-impact-of-covid-19-compounding-existing-inequalities-in-wales,-report-finds?fbclid=IwAR0mJ0EqxAlDrbVfYS7aDabev-yFHXyGw1sU8Q9PYajvy_I_7-WoUJok_zc ; **Ar anghydraddoldebau yng Nghymru gan gynnwys pobl hŷn (o tudalen14 ymlaen) April** 2021 https://www.who.int/europe/news/item/08-04-2021-wales-places-health-equity-at-the-heart-of-their-covid-19-recovery-using-who-approach REPORT here https://phw.nhs.wales/news/placing-health-equity-at-the-heart-of-coronavirus-'recovery-for-building-a-sustainable-future-for-wales/placing-health-equity-at-the-heart-of-the-covid-19-sustainable-response-and-recovery-building-prosperous-lives-for-all-in-wales/ ; **Marwolaethau Covid yng Nghymru i gymharu â Lloegr** 2021 https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/articles/deathsregisteredduetocovid19/2021; Latest Covid data in Wales https://www.bbc.co.uk/news/uk-

y band oedran) ar gyfer marwolaethau Covid-19 yng Nghymru yw 79.4 oed, roedd hyn yn 80.9 oed ar gyfer menywod a 78.3 oed ar gyfer dynion.[4]

9. Mae'n ymddangos y gallai hyn fod yn rhannol oherwydd y cyfraddau uchel o Covid-19 a gafwyd yn yr ysbyty yng Nghymru ('Haint Nosocomial'). Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi data wythnosol yn ymwneud â heintiau Covid-19 ac, er enghraifft, yn yr wythnos yn diweddu 12 Mawrth 2023 roedd o leiaf 70% o heintiau Covid-19 yng Nghymru o ganlyniad i heintiau nosocomial.[5] Mae'r ffigwr wedi aros o gwmpas y ganran hon yn gyson. Mae CBFJ Cymru yn ystyried bod pobl hŷn yn debygol o fod yn nodwedd amlwg o fewn y 70% hwn. Mae'n ymddangos felly nad yw gwersi wedi'u dysgu o hyd am reoli Covid-19 yn ysbytai Cymru. Mae hyn yn hynod o bryderus ac yn rheswm pellach pam mae'n rhaid i'r Ymchwiliad gael darlun cyflawn o effaith pandemig Covid-19 ar y bobl hŷn yng Nghymru.

10. Mae CBFJ Cymru yn galw ar yr Ymchwiliad i anfon ceisiadau Rheol 9 at y sefydliadau canlynol a fydd, yn ddiamau, â thystiolaeth a data hynod o berthnasol i'w darparu a'r holl faterion sy'n peri pryder i'r Ymchwiliad hwn mewn perthynas â Chymru yn ogystal ag mewn perthynas â phobl hŷn.

Llywodraeth Cymru / Gweision Sifil

a. Ysgrifennydd Parhaol – Andres Goodall & Shan Morgan;
b. Prif Ysgrifennydd Preifat i'r Prif Weinidog - Carys Evans;
c. Cyfarwyddwr, Swyddfa'r Prif Weinidog – Des Clifford;
a. Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Cabinet - Christopher W Morgan;
b. Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Prif Weithredwr, GIG Cymru - Judith Paget;
c. Cyfarwyddwr Cyffredinol, Adferiad Covid a Llywodraeth Leol - Reg Kilpatrick (gweler uchod);
d. Cyfarwyddwr Dros Dro, Diogelu Iechyd y Cyhoedd – Sioned Rees;
e. Cyfarwyddwr, Iechyd a Lles – Irfon Rees;
f. Cyfarwyddwr, Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl – Alex Slade;

wales-52380643; **Y don gyntaf – ystadegau ar cysgodi – a llythrennau cysgodi coll** https://welshundergroundnetwork.com/2022/05/03/manufacturing-apathy/

[4] Ibid, https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-08/health-inequalities-in-covid-19-deaths-and-hospital-admissions-in-wales-march-2020-to-july-2022.pdf

[5] https://public.tableau.com/app/profile/public.health.wales.health.protection/viz/COVID-19-Hospitaladmissionsdashboard/COVID-19hospitaladmissionsdashboard?publish=yes

g. Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru – Nick Wood;
h. Cyfarwyddwr, Cyllid GIG – Steve Elliot;
i. Prif Swyddog Nyrsio – Sue Tranka;
j. Cyfarwyddwr, Addysg a'r Iaith Gymraeg – Owain Lloyd;
k. Cyfarwyddwr, Adfer ac Ail-gychwyn – Simon Brindle;
l. Prif Gynghorydd Gwyddonol – Jas Pal Badyel;
m. Pennaeth tîm prosiect COVID-19 - Jo Trott

Ymgynghorwyr Arbennig

a. Alex Bevan;
b. Dan Butler;
c. Paul Griffiths;
d. Sara Faye;
e. Andrew Johnson;
f. Tom Woodward;
g. Mitch Theaker;
h. Gareth Williams;
i. Madeleine Brindley;
j. Dewi Knight;
k. Jonathan Scourfield

Sefydliadau eraill

a. Health Education and Improvement Wales (HEIW);
b. Digital Health and Care Wales;
c. NHS Wales Shared Services Partnership;
d. Community Health Councils in Wales;
e. Human Tissues Authority;
f. Cygnus Reports - https://cygnusreports.org/seven-reports;
g. Asthma + Lung UK;
h. Medics for Masked up Wales;
i. Fresh Air Wales - http://www.freshair.wales ;
j. Fresh Air NHS - https://www.freshairnhs.com;
k. Wales Covid-19 Evidence Centre - https://healthandcareresearchwales.org/about-research-community/wales-covid-19-evidence-centre;
l. National Bereavement Steering Group for Wales;

m. Will Hayward/WalesOnline - awdur o 'Lockdown Wales' sy'n amlygu'r diffyg parodrwydd yng Nghymru;
n. Churches Together Wales / Interfaith Wales;
o. Audit Wales;
p. Age Cymru;
q. Community Health Councils in Wales;
r. Race Alliance Wales
s. National Association of Funeral Directors (Welsh chapter).[6]

Datgeliad i Gyfranogwyr Craidd

11. Mae CBFJ Cymru yn galw am ddatgeliad cyn gynted â phosibl. Nid oes unrhyw ddatganiadau tyst wedi dod i law hyd yma yn y datgeliad a ddarparwyd ar gyfer M2b. Hyd yn hyn dim ond 473 o ddogfennau sy'n berthnasol i M2b sydd wedi'u datgelu.

Cyfarwyddyd tystion arbenigol

12. Dealltwrieath CBFJ Cymru o ddiweddariad yr ILT ar gyfer Ionawr 2023 a 13 Chwefror 2023 oedd yr hyn a nodwyd yno, sef,, "*We are also in the process of exploring the instruction of one or more experts to address the issues which Alex Thomas and Gavin Freeguard have been instructed on, with a focus on the structures and processes in Wales. Further updates on this will be provided in due course*". Rhoddodd hyn gysur i CBFJ y byddai arbenigwr Cymreig penodol yn cael ei gyfarwyddo mewn perthynas â'r cyd-destun Cymreig.

13. Serch hyn, mae CBFJ Cymru yn nodi bod diweddariad 14 Mawrth 2023 mewn perthynas ag M2b yn adlewyrchu'r wybodaeth a roddwyd am arbenigwyr mewn perthynas â Modiwl 2:

"As set out in the previous Update Notes, Module 2B has issued instructions in conjunction with Modules 2, 2A and 2C to the following experts:
a. ***Professor Ailsa Henderson*** *from the University of Edinburgh has been instructed to report on the political structures for devolution within the UK and mechanisms for inter-governmental decision-making between the UK Government and the devolved administrations during the Covid-19*

[6] Cred CBFJ Cymru fod gan y sefydliad hwn dystiolaeth berthnasol i'w rhoi i'r Ymchwiliad ar haint ar ôl marwolaeth, diffyg cyfathrebu a pharatoi, statws gweithiwr allweddol a diffyg dynodiad.

pandemic.

b. Professor Thomas Hale from the Blavatnik School of Government, University of Oxford, has been instructed to report on international data relating to the Covid-19 pandemic, in particular in analysing the effectiveness of the decision-making of the UK and each devolved administration to the Covid-19 pandemic in comparison to other countries.

c. ***Alex Thomas*** *from the Institute for Government has been instructed to report on the decision-making structures of the UK Government in an emergency, in particular the Cabinet Office, Cabinet Committees and the Office of the Prime Minister.*

d. ***Gavin Freeguard****, former Programme Director and Head of Data and Transparency at the Institute for Government, has been instructed to report on the access to and use of data by the UK Government and devolved administrations during the Covid-19 pandemic"*

14. Mae CBFJ Cymru yn cytuno y bydd yr Athro Ailsa Henderson a'r arbenigwyr eraill a restrir uchod yn ddiamau yn gallu adrodd ar y strwythurau gwleidyddol ar gyfer datganoli yn y DU o safbwynt hanesyddol a ffeithiol. Serch hyn, mae CBFJ Cymru yn ystyried bod angen tystiolaeth arbenigol fanwl gan arbenigwr/wraig sydd â phrofiad perthnasol sydd yn canolbwyntio ar y persbectif Cymreig. Mae CBFJ Cymru yn nodi bod adroddiad yr Athro Heymann yn tanlinellu'r pryderon CBFJ Cymru. Darparodd adroddiad yr Athro Heymann ddigonedd o wybodaeth gefndir lefel uchel berthnasol ond yng nghyd-destun adroddiad DU gyfan yn unig. Fel y mae CBFJ Cymru wedi'i nodi yn eu sylwadau ar adroddiad Athro Heymann, lle cyfeirir at sefydliadau, mae'r sylw yn tueddu i fod ar sefydliadau Lloegr neu'r DU gyfan ac nid mewn perthynas â sefydliadau Cymreig, Albanaidd na Gogledd Iwerddon.

15. Mae'n rhaid i'r Ymchwiliad hwn archwilio a deall y persbectif Cymreig ac effaith datganoli ar gymhwysedd a gwydnwch llywodraeth Cymru yn briodol. Mae hyn yn arbennig o wir gan ystyried yr amser cyfyngedig a osodwyd ar gyfer gwrandawiadau llafar ar gyfer Modiwl 1 ac M2b. Mae CBFJ Cymru felly yn galw ar yr Ymchwiliad i gyfarwyddo arbenigwr/arbenigwyr i adrodd yn benodol ar y strwythurau penderfynu datganoledig yng Nghymru a sut maent yn gweithio ac yn rhyngberthyn, gan gynnwys mewn argyfwng, er mwyn darparu'r sylfaen dystiolaethol ar gyfer y materion dan sylw yn yr Ymchwiliad hwn a'i ddatblygu mewn perthynas â Chymru.

Mae CBFJ Cymru yn awgrymu fel arbenigwr posib yr Athro Dan Wincott o Ganolfan Llywodraethiant Cymru a/neu unigolyn addas o UK-ICE (UK in a Changing Europe).[7]

16. Mae CBFJ Cymru yn croesawu arwydd y Cadeirydd yn y dyfarniad ar 9 Mawrth 2023 mewn perthynas â Modiwl 2 bod "*the Inquiry legal team should, in addition to the expert evidence to be obtained in relation to structural racism, explore the possibility of obtaining a single report covering these other issues, if necessary drafted by a (small) team of experts covering different specialisms*." Y materion eraill y cyfeiriodd y Cadeirydd atynt yw gwahaniaethu strwythurol sy'n bodoli eisoes ar seiliau eraill (hynny ydy, ac eithrio hil) a materion croestoriadol.

17. Rhoddwyd sylw yng ngwrandawiadau Modiwl 2, yn ddigon cywir, i hiliaeth strwythurol ac anghydraddoldeb a mathau eraill o anffafriaeth. Mae oedran hefyd yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae CBFJ Cymru o'r farn ei fod yn hanfodol o bwysig bod arbenigwr yn cael ei gyfarwyddo i ystyried effaith pandemig Covid-19 ar bobl hŷn yng Nghymru (a ledled y DU). Mae CBFJ Cymru eisoes wedi tynnu sylw at fwlch posibl mewn casgliad data mewn perthynas â'r garfan hon mewn perthynas â Chymru. Mae CBFJ Cymru o'r farn y bydd yn amhosibl i'r Ymchwiliad hwn ddeall yn llawn pam y cafodd pandemig Covid-19 effaith mor anghymesur ar bobl hŷn yng Nghymru heb elwa o adroddiad arbenigol ar nodweddion y garfan hon sydd yn agored i niwed a'r feithiau am beth ddigwyddodd yng Nghymru.

<u>Tystion ac amserlen gwrandawiad</u>

18. Mae CBFJ Cymru yn nodi'r newid yn y dyddiad ar gyfer M2B a'r amserlen arfaethedig bresennol. Mae CBFJ Cymru yn dymuno mynegi eu pryder dwys yn y cyfnod cynnar hwn ynglŷn â bwriad yr Ymchwiliad Cyhoeddus i ymdrin ag effaith ac ymdriniaeth y pandemig Covid-19 yng Nghymru ar faterion M2b mewn llai na phythefnos o wrandawiadau llafar. Mae CBFJ Cymru yn pryderu na fydd y cyfnod hwn yn caniatáu craffu cyhoeddus digonol. Rhaid peidio ag anghofio bod Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru, wedi gwrthod galwadau am Ymchwiliad Cyhoeddus penodol i Gymru, yn debyg i Ymchwiliad Cyhoeddus yr Alban, oherwydd ei fod yn dibynnu ar yr Ymchwiliad Cyhoeddus hwn. Mae CBFJ Cymru yn aros am y rhestriad ar gyfer Modiwl 1 ond yn

[7] https://ukandeu.ac.uk/?s=devolution

parhau i bryderu na ddylai Llywodraeth Cymru ddianc rhag craffu cyhoeddus llawn yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus hwn.

Rhagorfraint Seneddol

19. Nid oes gan CBFJ Cymru unrhyw gyflwyniadau i'w gwneud ynglŷn â'r mater hwn.

Gweithdrefn cynnig tystiolaeth a Rheol 10

20. Mae CBFJ Cymru yn croesawu 'r broses ar gyfer cyfarfod â CTI sydd y cyfeirir ato ym mharagraff 52 nodyn CTI, 14 Mawrth 2023. Fel y cadarnhawyd gan y Cadeirydd yn y dyfarniad ar 17 Chwefror 2023 yn dilyn yr ail wrandawiad rhagarweiniol am Fodiwl 1 (ac yn nodyn CTI, paragraff 48), nid yw'r ddeialog gyda CTI yn effeithio ar hawl y Cyfranogwyr Craidd o dan Reol 10(4) i ofyn am ganiatâd gan y Cadeirydd i holi tystion eu hunain. Mae CBFJ Cymru yn cymeradwyo ac yn ailadrodd y cyflwyniadau a wnaed gan gyfranogwyr craidd anwladwriaethol eraill sy'n cynrychioli teuluoedd mewn profedigaeth mewn perthynas â phwysigrwydd caniatáu y cyfranogwyr craidd i holi tystion ar ôl CTI. Bydd y dull hwn yn sicrhau cyfranogiad effeithiol ar gyfer y rhai sydd mewn profedigaeth, cynyddu hyder y cyhoedd yn yr Ymchwiliad hwn a sicrhau mwy o amrywiaeth o holwyr.

Amrywiol

21. Unwaith eto, mae CBFJ Cymru yn cymeradwyo ac yn ailadrodd awgrymiad Gyngres yr Undebau Llafur y dylid rhestru gwrandawiad byr ar ôl i bob gwrandawiad is-fodiwl M2 gael ei gwblhau er mwyn ystyried y gwersi a ddysgwyd ar draws y modiwlau hyn. Mae hyn yn arbennig o wir gan ystyri y data amlygir uchod sy'n awgrymu bod haint Nosocomial Covid-19 yn parhau i fod yn broblem ddifrifol yn Ysbytai Cymru.

Craig Court
Harding Evans Solicitors
RLR

Lloyd Williams KC
Bethan Harris
Kirsten Heaven
Nia Gowman
Laura Shepherd
Counsel
22 March 2023